



07/01/13

Annwyl Riant / Warcheidwad

Ar ddechrau tymor fel hyn hoffwn ddymuno blwyddyn newydd dda i holl rieni'r ysgol a hoffwn ddiolch yn fawr i bawb a gymerodd y cyfle hefyd i lenwi'r holiadur ar-lein yn gofyn am farn rhieni.

Gwn fod amseriad yr holiadur ychydig yn anffodus, yng nghanol prysurdeb diwedd tymor, ac oherwydd hynny efallai nad oedd yr ymateb gystal â'r disgwyl. Er mwyn ceisio cael ymatebion mwy niferus, a thrwy hynny sicrhau sampl mwy cynrychiadol o farn rhieni'r ysgol, hoffwn ail-agor yr holiadur a rhoi cyfle arall i rieni ymateb i'r holiadur trwy ddilyn y cyfarwyddiadau isod.

Os ydych eisoes wedi llenwi'r holiadur yna nid oes angen i chi wneud hynny eto – bydd ymatebion y ddau gyfnod yn cael eu rhoi at ei gilydd i gynrychioli barn rhieni.

I sicrhau ansawdd yn y broses rydym yn defnyddio holiaduron Estyn ar gyfer rhieni. Gofynnwn felly am eich cydweithrediad yn y mater yma gan ofyn i chi gymryd ychydig funudau i lenwi'r holiadur ar-lein ar y wefan: <http://holi.cynnal.co.uk>. Darparwn isod enw defnyddiwr a chyfrinair i chi ar gyfer y dasg:

Enw defnyddiwr: rhienitryfan

Cyfrinair: tryfan

Ewch i'r dudalen we uchod, mewngofnodwch gyda'r manylion (Enw defnyddiwr a Chyfrinair), yna dewiswch yr holiadur o'r enw: **Holiadur Rhieni Estyn 2012**

Yna: **Cliciwch yma i gychwyn yr Holiadur Rhieni 2012 - Click here to start the 2012 Parents Questionnaire.** Wedi i chi ateb pob cwestiwn, cliciwch ar y botwm: **Cyflwyno'r Holiadur.**

Mae'r holiadur yn parhau i fod ar gael i chi ar y wefan uchod a bydd ar gael yno tan hanner dydd Ionawr 18 2013 - ar ôl y dyddiad hwnnw ni fydd modd llenwi'r holiadur ar-lein. Hoffwn ddiolch i chi ymlaen llaw am eich cydweithrediad yn y broses hon a hoffwn hefyd ddiolch i gwmni Cynnal am eu cefnogaeth yn cyflwyno'r holiadur hwn i chi ac am y gwaith dadansoddi sydd i ddod. Bydd eich barn yn werthfawr iawn yn y broses hunan arfarnu ac yn sail i ni osod blaenoriaethau i'r ysgol ar gyfer y dyfodol.

Yn gywir

Gwyn Tudur
Pennaeth

Ysgol Tryfan

Lôn Powys, Bangor, Gwynedd. LL57 2TU

☎ 01248 352 633 ☎ 01248 361 264

pennaeth@tryfan.gwynedd.sch.uk www.ysgoltryfan.org

Pennaeth/Headteacher: Gwyn Tudur